University of South Wales
Prifysgol De Cymru

Canllaw Prifysgol De Cymru i

# Gyfeirnodi OSCOLA



Diwygiwyd Awst 2026

# Canllaw Prifysgol De Cymru i Gyfeirnodi OSCOLA


## Cydnabyddiaethau

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar yr *Oxford University Standard for Citation of Legal Authorities* (OSCOLA), a gyhoeddir gan Gyfadran y Gyfraith, Prifysgol Rhydychen: https://www.law.ox.ac.uk/sites/default/files/2026-03/OSCOLA%205.pdf


Wedi ei drwyddedu dan Creative Commons Attribution-Non Commercial-Sharealike 2.0 UK: Trwydded Cymru a Lloegr.

Mae canllawiau wedi eu creu gan brifysgolion eraill yn y DU hefyd wedi ysbrydoli'r canllaw hwn.

Diwygiwyd Awst 2026

# Cynnwys


**Rhan 1**
**Cyfeirnodi**

**1. Pwysigrwydd cyfeirnodi....................................................3**
Cyflwyniad
Beth yw cyfeirnodi?
Pam cyfeirnodi?
Ansawdd a pherthnasedd ffynonellau
Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr
Llên-ladrad – gonestrwydd academaidd
Cymorth

**2. Sut i Gyfeirnodi ............................................................. 5**
Gofynion hanfodol
Beth yw marciwr troednodyn?
Sut mae mewnosod marciwr troednodyn?
Beth yw tablau achosion a statudau?
Beth yw llyfryddiaeth?
Beth yw ffynonellau cyfraith gwreiddiol ac eilaidd?
Atalnodi
Pinbwyntiau
Termau Lladin
Crynhoi
Aralleirio
Cyfeirnodi Eilaidd
Cyflwyno Dyfyniadau Uniongyrchol
Dyfyniadau byr
Dyfyniadau hir
Cyflwyno Troednodiadau
Sut mae cyfeirnodi ffynonellau mewn troednodiadau?
Crybwyll ffynhonnell am y tro cyntaf
Crybwyll ffynhonnell wedi hynny

**Rhan 2**
**Sut i Gyfeirnodi Ffynonellau Cyfraith y DU a'r UE**

**A.Cyfeirnodi Cyfraith Achosion y DU ...........................7**
Hierarchaeth adroddiadau cyfraith
Cromfachau
Talfyriadau
Cyfeirnodi achosion:
Cyfeirnodi achosion traddodiadol a niwtral
Enghraifft o gyfeirnodi achos traddodiadol
Enghraifft o gyfeirnodi achos niwtral
Achosion heb eu Hadrodd
Achosion cyn 1865

**B: Cyfeirnodi Cyfraith Achosion yr UE ..............................8**
Achosion US wedi eu Hadrodd Achosion UE Heb eu Hadrodd
Barn Adfocadau Cyffredinol
Penderfyniadau'r Comisiwn Ewropeaidd
Achosion y Llys Iawnderau Dynol Ewropeaidd heb eu Hadrodd

**C: Cyfeirnodi Deddfwriaeth Sylfaenol y DU..........................9**
Cyfeirnodi Statudau (Deddfau Seneddol)
Nodiadau Esboniadol Deddfau
Biliau

**D: Cyfeirnodi Is-ddeddfwriaeth .................................................10**
Offerynnau Statudol

**E:Cyfeirnodi Deddfwriaeth yr UE............................................. 10**

**F: Cyhoeddiadau Swyddogol ......................................................10**
Adroddiadau Comisiwn y
Gyfraith Papurau Gorchymyn
Dadleuon seneddol (Hansard)

**G: Llyfrau .....................................................................................11**
Llyfrau ag un awdur
Llyfr gyda dau neu dri awdur
Llyfr â mwy na thri o awduron
Llyfr gyda golygydd(ion)
Cyfraniad at lyfr
Gwyddoniaduron

**H: : Erthyglau mewn Cyfnodolion (Print ac e-Gyfnodolion)....12**
Cyfnodolion sydd ar-lein yn unig
Sylwadau ar achosion neu nodiadau achos

**I: Gwefannau a Blogiau ..................................................................12**
Gwefannau
Blogiau

**Rhan 3**
**Tablau Achosion a Statudau a Llyfryddiaeth..........................................................13**
Sut i gyflywno tablau achosion a statudau
Sut i gyflwyno llyfryddiaeth o ffynonellau eilaidd
Fformatio

# Rhan 1 – Cyfeirnodi

## 1. 1. Pwysigrwydd cyfeirnodi

**Cyflwyniad**

Nod y canllaw hwn yw egluro pwysigrwydd cyfeirnodi, ynghyd â dangos sut i fformatio cyfeirnodau yn seiliedig ar arddull *OSCOLA.* Mae'n defnyddio enghreifftiau o rai o ffynonellau mwyaf poblogaidd cyfraith y DU a'r UE, ac yn dangos y confensiynau sydd ynghlwm wrth ysgrifennu academaidd am y Gyfraith. Mae'n bwysig bod gwaith cwrs, megis traethodau, sy'n cael eu cyflwyno gan holl fyfyrwyr y gyfraith a phob myfyriwr sy'n dilyn modiwlau yn y gyfraith yn rhan o ddisgyblaeth arall i'w hasesu yn Ysgol y Gyfraith, yn dilyn yr enghreifftiau a nodir yn y canllaw hwn. .

**Beth yw cyfeirnodi??**

Dangos mewn aseiniadau eich bod wedi defnyddio deunydd na chrëwyd yn wreiddiol gennych chi yw cyfeirnodi. Gallai hyn gynnwys mathau amrywiol o wybodaeth megis data, delweddau, ffeithiau neu farn. Efallai y dewiswch ddyfynnu'n uniongyrchol, neu grynhoi neu aralleirio gwaith person arall.

**Pam cyfeirnodi?**

Mae'r rhan fwyaf o aseiniadau academaidd yn mesur eich gallu i ddeall, dadansoddi a gwerthuso gwaith pobl eraill. Mae'n bwysig cofio bod cyfeirnodi, fel mater o bolisi gan Ysgol y Gyfraith, yn cyfrif am ganran (5% ar hyn o bryd) o farc cyffredinol aseiniad, ac os gwneir yn gywir bydd yn cyfrannu at eich marc a'ch llwyddiant academaidd.

O ganlyniad, mae cyfeirnodi'n allweddol gan ei fod yn rhoi gwybod i'r darllenydd am y testunau rydych wedi eu defnyddio yn ystod eich ymchwil. Mae ansawdd a pherthnasedd y ffynonellau hyn hefyd yn rhan o'r asesiad. Wrth ysgrifennu aseiniadau mae'n bwysig cyfeirnodi pob ffynhonnell y cyfeirir ati mewn ffordd glir a chyson. Mae hyn yn dangos eich bod wedi ystyried gofynion y darllenydd gan ei fod yn ei alluogi i wirio'r awdurdodau cyfreithiol rydych wedi cyfeirio atynt a dilyn y dadleuon neu'r gosodiadau rydych wedi eu cynnig.

**Ansawdd a pherthnasedd ffynonellau**

Mae'n arbennig o bwysig yn y Gyfraith i gyfeirnodi'r ffynonellau cyfraith gwreiddiol (fel arfer deddfwriaeth a chyfraith achos) gan fod hyn yn galluogi'ch darllenydd i ddeall pa reol cyfraith rydych chi'n cyfeirio ati pan ddywedwch 'X yw'r gyfraith'. Mae cyfeirnodi ffynonellau gwreiddiol yn rhoi prawf awdurdod ac yn galluogi'ch darllenydd i ffurfio barn ar gryfder yr awdurdod. Mae ffynonellau eilaidd (llyfrau ac erthyglau o gyfnodolion fel arfer) yn rhoi esboniadau, sylwadau ac adolygiadau ar y ffynonellau cyfraith gwreiddiol ac maent yn gallu argyhoeddi, ond nid cyfraith mohonynt.

**Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr a' Bwrdd Safonau'r Bar**

Yn y Gyfraith, mae'n hynod bwysig dysgu sut i gyfeirnodi'n gywir gan y bydd yr awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr a Bwrdd Safonau'r Bar yn asesu cymeriad ac addasrwydd pob myfyriwr sy'n gwneud cais i ymaelodi a byddant yn gwrthod cais, heblaw am mewn *amgylchiadau eithriadol*, os bydd tramgwydd wedi ei gyflawni'n fwriadol, neu fod penderfyniad wedi ei wneud bod hynny wedi digwydd, ac sy'n gyfystyr â llên-ladrad neu dwyllo i ennill mantais i chi'ch hun neu i eraill.

**Llên-ladrad – gonestrwydd academaidd**

I gael rhagor o wybodaeth am uniondeb academaidd, ewch i'r Hwb Sgiliau Astudio ar Blackboard.

Mae deall arferion academaidd da mewn gwaith ysgrifenedig ac arferion creadigol yn rhan allweddol o onestrwydd academaidd.

Mae deall sut i ddefnyddio gwaith ysgolheigion eraill, gan gynnwys eich cymheiriaid, i ddatblygu eich mewnwelediad eich hun i bwnc yn sgil broffesiynol bwysig.

Dilynwch gonfensiynau academaidd proffesiynol bob tro. O fewn y gymuned academaidd ryngwladol, nid yw byth yn dderbyniol defnyddio geiriau pobl eraill neu eu hallbwn creadigol (boed wedi ei gyhoeddi neu heb ei gyhoeddi, ac yn cynnwys deunyddiau o'r rhyngrwyd) heb gydnabyddiaeth amlwg. Byddai gwneud hynny'n cael ei ystyried yn ddi-barch ac yn llên-ladrad.

Pan fyddwch yn ysgrifennu nodiadau ar sail ffynonellau, gwnewch hynny mewn ffordd sy'n nodi eich bod yn cofnodi eich arsylwadau eich hun ar sail dogfen rydych yn ei darllen, ac sy'n nodi ai aralleirio yr ydych, neu ddyfynnu'n uniongyrchol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan fyddwch yn ysgrifennu nodiadau dros gyfnod hir ac yn eu hadolygu'n hwyrach.

**Cymorth**

Gofynnwch am gyngor gan eich darlithydd, y Gwasanaeth Datblygu Myfyrwyr a Sgiliau Astudio neu Lyfrgellydd eich Cyfadran os oes angen rhagor o gyfarwyddyd arnoch

# ENGHRAIFFT 1 – fersiwn gryno, ddarluniadol o aseiniad

**(NODWCH: gwiriwch ganllawiau pellach yn Rhan 3 ynghylch mynegeio ar gyfer myfyrwyr blwyddyn olaf ac ôl-raddedig)**

**Table of Cases**

Edwards v Skyways [1964] 1 All ER 494

Tweddle v Atkinson [1861] 1 B & S 393; 121 ER 762 (QB)

**Table of Statutes**

Contract (Rights of Third Parties) Act 1999

Landlord and Tenant Act 1995

The case of *Edwards v Skyways*[1] demonstrates that even when an attempt is made to claim that the commercial agreement was not intended to be legally binding, that generally the agreement will be held to be so. Sir John Smith argues that:

> "In ordinary business matters … such an intention is presumed. The ordinary shopper in the high street does not have a conscious intention to create legal relations as he makes his various purchases, but he is undoubtedly entering into a series of contracts for the sale of goods."[2]

Therefore, a claim can be made for work that has legally been done.[3] However, the burden of proof would likely be to prove this point, as Treitel argues, "The family circle differs from the market place in that it is not the setting for bargaining but for an exchange of gifts or gratuitous services."[4] Ultimately, it is unlikely that a family member could claim on these grounds, but possibly if proven the work was done via a commercial relationship and that it is not a responsibility to maintain the property as a tenant.[5] It is further held that consideration must move from the promise. This point of law is established in the case of *Tweddle v Atkinson*[6] whereby it was held that somebody outside the contract could not rely on the contract, even though it sought to benefit that person. Although the Contract (Rights of Third Parties) Act 1999 has now sought to resolve this problem for the purpose of equity, the principle still stands, since the agreement has not been made for the defendant's benefit.[7]

---

[1] *Edwards v Skyways Ltd* [1964] 1 All ER 494.
[2] J Smith, *The Law of Contract* (4th rev edn, Sweet & Maxwell 2002) 117.
[3] Smith (n 2) 120.
[4] GH Treitel, *Treitel on the Law of Contract* (11th rev edn, Sweet & Maxwell 2003) 174.
[5] As was stated in the Landlord and Tenant Act 1995, s 8.
[6] *Tweddle v Atkinson* [1861] 1 B&S 393; 121 ER 762 (QB).
[7] Smith (n 2) 135.

Dylai tablau ar y dechrau a'r Llyfryddiaeth ar y diwedd ddechrau ar dudalennau ar wahân i brif gorff y gwaith.

**Bibliography**

Smith J, *The Law of Contract* (4th edn, Sweet & Maxwell 2002)

Treitel GH, *The Law of Contract* (11th edn, Sweet & Maxwell 2003)

## 2. 2. Sut i gyfeirnodi

**Gofynion hanfodol**
Mae tri gofyniad hanfodol o ran ymgorffori cyfeirnodau i'ch gwaith wrth ddefnyddio *OSCOLA:* (Gweler Enghraifft 1 ar dudalen 4).

- Cyfeirnodi: wrth gydnabod ffynhonnell, rhowch farciwr troednodyn ar ôl yr atalnod llawn ar ddiwedd y frawddeg, neu ar ôl unrhyw atalnod arall, neu ar ôl y gair neu'r cymal mae'n berthnasol iddi neu iddo;
- Troednodyn: wrth gyfeirio at gyhoeddiad am y tro cyntaf, rhowch gyfeirnod llawn i'r ffynhonnell ar waelod y dudalen. Gellir rhoi 'Crybwylliad dilynol at ffynhonnell' wedyn ar ffurf nodyn. (Gweler yr enghreifftiau ar dudalen 6);
- Llyfryddiaeth: rhowch **Dabl** ffynonellau gwreiddiol ar y dechrau a **Llyfryddiaeth** ffynonellau eilaidd ar ddiwedd eich gwaith.

**Beth yw marciwr troednodyn?**
Fel y gwelir yn Enghraifft 1 ar dudalen 4, mae marciwr troednodyn yn rhediad parhaus o rifau ym mhrif gorff y testun sy'n cyfeirio'r darllenydd at ddilyniant rhifol o ffynonellau ar waelod yr un dudalen (troednodiadau).

**Sut mae mewnosod marciwr troednodyn?**
Gellir mewnosod marciwr troednodyn a throednodyn yn dechrau gydag [1] yn awtomatig yn Word. Dylid mewnosod y marciwr o-fewn-testun ar ôl atalnod llawn, neu ar ôl y gair neu'r cymal mae'n berthnasol iddo. (Gweler Enghraifft 1). Defnyddiwch y tab 'Cyfeiriadau/Refernces' i chwilio am y grŵp 'Troednodiadau/Footnotes' ac yna cliciwch ar 'Mewnosod Troednodyn/Insert Footnote'.

**Beth yw tablau achosion a deddfwriaeth?**
Y ffynonellau cyfraith hyn yw'r rhai mwyaf awdurdodol ac felly rhoddir nhw ar ddechrau'r gwaith, ar dudalen ar wahân i brif gorff y gwaith.

Gellir gweld enghreifftiau o hyn hefyd yn y gwerslyfrau cyfraith arweiniol. (Gweler Rhan 3 – Tablau Achosion a Deddfwriaeth ar gyfer manylion).

**Beth yw llyfryddiaeth?**
Mae llyfryddiaeth yn rhestr o bob ffynhonnell eilaidd rydych wedi ei defnyddio wrth ymchwilio ar gyfer eich aseiniad, rhoddir hi ar dudalen ar wahân, ar ddiwedd y gwaith, ac ar ôl prif gorff y testun ac unrhyw atodiadau. (Gweler Rhan 3 – Llyfryddiaeth ar gyfer manylion.)

**Beth yw ffynonellau cyfraith gwreiddiol ac eilaidd?**
Y gyfraith ei hun yw'r ffynonellau cyfraith gwreiddiol: cyfraith achosion a deddfwriaeth yn bennaf. Ffynonellau eilaidd yw'r holl ddeunyddiau eraill, sy'n cynnig sylwadau ar, yn dadansoddi, crynhoi neu esbonio ffynonellau gwreiddiol mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, llyfrau, cyfnodolion, gwyddoniaduron, geiriaduron, mynegeion a chrynoadau, cyhoeddiadau swyddogol ac ati.

**Atalnodi**
Mae atalnod llawn bob tro ar ddiwedd pob troednodyn. Peidiwch â defnyddio atalnodau llawn ar ôl talfyriadau (QB nid Q.B. ar gyfer Queen's Bench), nac ar ôl y 'v' rhwng dau barti. O fewn troednodyn, os cyfeirir at fwy nag un ffynhonnell, gwahanwch nhw gyda hanner colon.

**Pinbwyntio**
Defnyddiwch rifau pinbwyntio i gyfeirio'r darllenydd at dudalennau a pharagraffau penodol mewn ffynhonnell. Bydd y rhain yn cael eu gosod ar ddiwedd cyfeirnod troednodyn pan fydd eu hangen. Defnyddiwch 'pt' ar gyfer part/rhan, 'ch' ar gyfer chapter/pennod, a 'para' ar gyfer paragraph/paragraff. Mae rhifau tudalennau yn sefyll ar eu pennau eu hunain; h.y. nid oes angen i chi ddefnyddio 'p' ar gyfer page/tudalen na 'pp' ar gyfer pages/ tudalennau.

**Crynhoi**
Ystyr crynhoi yw nodi'n gryno yn eich geiriau eich hun brif bwyntiau testun hirach, yn aml i roi trosolwg dros bwnc. Ar ddiwedd eich brawddeg, rhowch farciwr troednodyn a rhowch fanylion y ffynhonnell wreiddiol yn y troednodiadau ac yn eich Tablau neu Lyfryddiaeth.

**Aralleirio**
Ystyr aralleirio yw ailysgrifennu gosodiadau pobl eraill yn eich geiriau eich hun, yn aml i egluro pwynt, yn hytrach na dyfynnu eu geiriau'n uniongyrchol. Ar ddiwedd eich brawddeg, rhowch farciwr troednodyn a rhowch fanylion y ffynhonnell wreiddiol yn y troednodiadau ac yn eich Tablau neu Lyfryddiaeth.

**Cyfeirnodi eilaidd**
Ystyr cyfeirnod eilaidd yw pan fyddwch yn darllen testun sy'n cynnwys cyfeiriad gan yr awdur at waith rhywun arall, a chithau am gyfeirio at y gwaith hwnnw yn eich aseiniad. Anogir chi i beidio â gwneud hyn gan y dylech wastad geisio dod o hyd i'r ffynhonnell wreiddiol, y gallwch ei dadansoddi a'i gwerthuso ar ei thermau ei hun.

Os nad yw'n bosibl dod o hyd i'r ffynhonnell wreiddiol, cyfeirnodwch y ffynhonnell yr ydych chi yn bersonol wedi ei darllen yn gyntaf ac wedyn mewn cromfachau, rhowch 'fel y cyfeirit ato yn/ as cited in' ac wedyn nodwch y ffynhonnell eilaidd rydych chi wedi ei darllen, gan gynnwys y rhif tudalen. Er enghraifft:

[4] Quoted in WL Clay, *The Prison Chaplain, A Memoir of the Reverend John Clay* (London 1861) 554 (as cited in M Wiener, *Reconstructing the Criminal Culture, Law and Policy in England 1830-1914* (CUP 1990) 79).

## Cyflwyno Dyfyniadau Uniongyrchol

**Sut mae cyflwyno dyfyniadau yn fy ngwaith?**

**Dyfyniadau byr**
Ymgorfforwch ddyfyniadau sydd hyd at dair llinell i'ch testun, gyda dyfynodau sengl. Mae dyfyniadau o fewn dyfyniadau byr angen dyfynodau dwbl:

ENGHRAIFFT

The government included a high maximum penalty of 5 years imprisonment for breaching an anti-social behaviour order in the bill 'because the offender should be sentenced for his "pattern of behaviour", including the conduct giving rise to the making of the anti-social behaviour order.'[34]

[34] Andrew Ashworth, 'Social Control and "Anti-Social behaviour": The Subversion of Human Rights' (2004) 120 LQR 263, 278.

**Dyfyniadau hir**

Cyflwynwch ddyfyniadau sy'n hirach na thair llinell mewn paragraff wedi ei fewnoli. Gadewch fwlch llinell i naill ochr a llall y paragraff sydd wedi ei fewnoli. Nid oes angen defnyddio dyfynodau, heblaw am ddyfynodau sengl o gylch dyfyniadau o fewn dyfyniadau.

ENGHRAIFFT

Sir John Smith argues that:

> In ordinary business matters … such an intention is presumed. The ordinary shopper in the high street does not have a conscious intention to create legal relations as he makes his various purchases, but he is undoubtedly entering into a series of contracts for the sale of goods.[2]

Therefore, a claim can be made for work that has legally been done.[3]

## Cyflwyno Troednodiadau

**Sut mae cyfeirnodi ffynonellau mewn troednodiadau?**
Y rhestr o gyfeirnodau rhifol ar waelod tudalen yw troednodiadau (Gweler Enghraifft 1 ar dudalen 4).

**Crybwyll ffynhonnell am y tro cyntaf**
Rhaid cynnwys manylion llawn pob ffynhonnell pan grybwyllir y ffynhonnell honno am y tro cyntaf mewn troednodyn. O Enghraifft 1 ar dudalen 4:

[2] J Smith, *The Law of Contract* (4th rev edn, Sweet & Maxwell 2002) 117.

**Crybwyll ffynhonnell wedi hynny**
Os byddwch yn defnyddio'r un ffynhonnell eto yn yr aseiniad, nodwch hi'n fyr a nodwch y troednodyn gwreiddiol (gan ddefnyddio X) lle gellir dod o hyd i'r manylion llawn, y tro hwn dylech hefyd gynnwys rhif y dudalen ddilynol (neu rif y paragraff). Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yma: Gofynion hanfodol - Cyfeirnodi OSCOLA - LibGuides at University of South Wales

[7] Smith (n 2) 135.

# Rhan 2 – Sut i Gyfeirnodi Ffynonellau Cyfraith y DU a'r UE

Mae'r adran hon yn dangos sut i gyfeirnod ffynonellau cyfraith y DU a'r UE a dderbynnir helaethaf yn y troednodiadau. (Ar gyfer enghreifftiau Llyfryddiaeth a manylion fformatio gweler 'Rhan 3 – Llyfryddiaeth').

## A: Cyfeirnodi Cyfraith Achosion y DU

### Hierarchaeth adroddiadau'r gyfraith

Cyhoeddir llawer o gyfresi o adroddiadau'r gyfraith, ac ystyrir *The Law Reports* gan yr Incorporated Council of Law Reporting (ICLR) fel yr un fwyaf awdurdodol (AC, QB, Ch, Fam). Byddai cyfreithwyr yn y Llys yn cyfeirio at y gyfres hon o flaen unrhyw un arall, ond yn y byd academaidd, lle gallai sawl fersiwn o'r un adroddiad fod ar gael, dylech gyfeirio at yr un rydych chi wedi ei darllen. Yr adroddiadau gorau nesaf yw *The Weekly Law Reports* (WLR) neu'r *All England Law Reports* (All ER). Gelwir y rhain yn gyfresi adroddiadau cyfraith cyffredinol. Os na fydd penderfyniad ar gael o unrhyw un o'r ffynonellau hyn, yna cyfeiriwch at gyfres arbenigol megis y *Criminal Appeal Reports, Industrial Cases Reports* ac ati.

Mae'r cyfeirnod at yr adroddiad mwyaf awdurdodol i'w weld yn syth wedi enw'r achos (cyn- 2001) neu'r cyfeirnod achos niwtral (ôl- 2001) yn y rhestrau cyfeirnodi ynn nghronfeydd data cyfraith a chyfrolau print y *Current Law Case Citator*.

**Cromfachau – crwn neu sgwâr?**
Wrth gyfeirnodi achosion, mae naill ai cromfachau crwn neu sgwâr o gwmpas y flwyddyn. Mae [] yn dangos y flwyddyn yr adroddwyd ar yr achos a bod angen i chi wybod y flwyddyn honno i ddod o hyd i'r achos mewn print. Mae () yn dangos nad oes angen dod o hyd i'r gyfrol gywir a'ch bod yn defnyddio rhif y gyfrol i ddod o hyd i'r adroddiad achos o fewn y gyfres.

**Talfyriadau**
Mae canllaw cynhwysfawr i dalfyriadau adrodd achosion cyfreithiol a theitlau cyfrolau ar gael yn y Cardiff Index to Legal Abbreviations www.legalabbrevs.cardiff.ac.uk

**Cyfeirnodi Achosion**
Wrth gyfeirnodi achosion, rhowch enw'r achos, y cyfeirnod niwtral (os yn briodol), a chyfrol a thudalen gyntaf yr adroddiad cyfraith perthnasol, a'r Llys pan fo angen.

**Cyfeirnodi Achosion Traddodiadol a Niwtral**
Mae dau fath o gyfeirnod achos, 'traddodiadol' sy'n cynnwys manylion rhif cyfrol brint a rhif tudalen a 'niwtral' a ddechreuodd yn 2001 pan fabwysiadodd y Llys Apêl ac wedyn pob is-adran o'r Uchaf Lys ffurf gyfeirnodi sy'n cynnwys manylion rhifau achosion a'r Llys. Nid oes cyfeiriadau cyfeiriadau at gyfrolau print na thudalennau mewn cyfeirnodau niwtral; maen nhw'n niwtral o ran fformat a chyhoeddwr. Cyflwynwyd y dull hwn o gyfeirnodi er mwyn dod o hyd yn haws i achosion heb eu hadrodd neu drawsgrifiadau o wefannau megis BAILLI http://www.bailii.org/.

### Enghraifft o gyfeirnodi achos traddodiadol
Ar gyfer achosion sydd â chyfeirnod achos traddodiadol, cyfeirnodwch fel a ganlyn:

**Trefn gyfeirnodi:**
Enwau partïon [blwyddyn] NEU (blwyddyn) | cyfrol | talfyriad achos | tudalen gyntaf neu rif achos | (enw'r Llys wedi ei dalfyrru)

**Cyfeirnod cyntaf mewn troednodyn:**
[1] *Giles v Thompson* [1994] 1 AC 142 (HL).

**Cyfeirnodau wedi hynny mewn troednodyn:**
Os byddwch yn cyfeirio at ffynhonnell fwy nag unwaith yn eich troednodiadau, rhowch y cyfeirnod llawn wrth ei chrybwyll am y tro cyntaf (fel uchod) ac wedi hynny nodwch y ffynhonnell yn gryno a'r troednodyn y mae'r manylion llawn ynddo.

[5] *Giles* (n 1).

Cofiwch ei bod yn dderbyniol hefyd ddefnyddio 'ibid', sy'n golygu 'yn yr un lle'. Defnyddiwch hwn i ailadrodd gwybodaeth sydd yn y troednodyn yn syth o flaen y cyfeirnod presennol. Mae ibid ar ei ben ei hyn yn golygu 'yn yr un lle yn union'. Ni ddylid italeiddio ibid.

[5] *Giles* (n 1).

[6] ibid.

**Cyfeirnodau dilynol mewn troednodiadau gyda phinbwynt:**

Os byddwch yn cyfeirio at ffynhonnell fwy nag unwaith yn eich troednodiadau ac yn dymuno nodi tudalen benodol, defnyddiwch binbwynt fel a ganlyn. Er enghraifft mae 'ibid 150' yn golygu 'yn yr un gwaith, ond ar dudalen 150 y tro hwn'.

[5] *Giles* (n 1) 145.

[6] ibid 150.

**Cyfeirnodau'n cynnwys pinbwyntiau at rif tudalen neu baragraff**

Wrth binbwyntio o fewn achos, rhoch rifau paragraffau mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd y cyfeirnod. Os nad oes gan y penderfyniad rifau paragraff, rhowch y pinbwynt rhif tudalen ar ôl y Llys.

[3] *Callery v Gray* [2001] EWCA Civ 1117, [2001] 1 WLR 2112 [42].

[4]*Bunt v Tilley* [2006] EWHC 407 (QB), [2006] 3 All ER 336 [1]-[37].

[5] *R v Leeds County Court, ex p Morris* [1990] QB 523 (QB) 530-31.

Os yn cyfeirnodi barnwr penodol:

[3]*Arscott v The Coal Authority* [2004] EWCA Civ 892, [2005] Env LR 6 [27] (Laws LJ).

Ar gyfer achosion sydd â chyfeirnod achos niwtral, lle mae gennych y cyfeirnod niwtral a'r cyfeirnod traddodiadol, rhowch y cyfeirnod niwtral yn gyntaf, wedi ei ddilyn gan goma ac wedyn y cyfeirnod ar gyfer yr adroddiad mwyaf awdurdodol.

**Trefn gyfeirnodi:**
*Enwau'r partïon* | [blwyddyn] | Llys | rhif achos, | [blwyddyn] NEU (blwyddyn) | cyfrol | talfyriad yr adroddiad | tudalen gyntaf

[10] *R (Roberts) v Parole Board* [2004] EWCA Civ 1031, [2005] QB 410.

### Achosion heb eu hadrodd

Os yw achos heb ei adrodd, h.y. heb ei gyhoeddi mewn adroddiad cyfraith print, nodwch y cyfeirnod niwtral os yw ar gael. Os nad yw hwnnw ar gael, cyfeirnodwch fel a ganlyn:

**Trefn gyfeirnodi:**
*Enwau partïon* | (Llys, dyddiad y penderfyniad)

[7] *Calvert v Gardiner* [2002] EWHC 1394 (QB).

[9] *Stubbs v Sayer* (CA, 8 November 1990).

### Achosion cyn 1865

Cyhoeddwyd achosion a gynhaliwyd cyn 1865 mewn amrywiaeth o gyfresi adrodd a enwyd ar ôl yr adroddwr cyfraith unigol. Gelwir nhw'n 'adroddiadau enwebai'. Mae'r adroddiadau hyn ar gael mewn print yn y llyfrgell yn CAT.5 ac yn Lexis a Westlaw yn ffurf brint yr '*English Reports'*. Cyfeirnodwch fel a ganlyn:

**Trefn gyfeirnodi:**
*Enwau partïon* | (blwyddyn) | cyfrol |talfyriad adroddiad enwebai | tudalen gyntaf, |cyfrol | talfyriad English Report | tudalen gyntaf

[1] *Boulton v Jones* (1857) 2 H&N 564, 157 ER 23.

Os oes pinbwynt, defnyddiwch hanner colon ar ôl y rhif tudalen, i wahanu'r cyfeirnod at yr adroddiad enwebai a'r English Report.

[4] *Henly v Mayor of Lyme* (1828) 5 Bing 91, 107; 130 ER 995, 1001.

## B:Cyfeirnodi Cyfraith Achosion yr UE

### Achosion yr UE wedi eu Hadrodd

Ers 1989, mae achosion yr UE wedi eu rhifo yn ôl a gawson nhw eu cofrestru yn Llys Cyfiawnder Ewrop (ECJ) neu yn Llys Ewropeaidd y Gwrandawiad Cyntaf (CFI) a rhoddir y rhagddodiad C- (achosion ECJ) neu T- (achosion CFI). Nid oes gan achosion cyn 1989 ragddodiad.

Pan yn bosibl, cyfeiriwch at yr adroddiadau swyddogol, *European Court Reports (*ECR). Adroddir achosion ECJ yng nghyfrol un (ECR I-) ac adroddir achosion CFI yng nghyfrol dau (ECR II-).

*Os nad oes adroddiad ECR ar gael, cyfeirnodwch y Common Market Law Reports (CMLR). Mae rhai achosion hefyd yn cael eu hadrodd yn y Law Reports, y Weekly Law Reports a/neu'r All England Law Reports (European Cases).*

**Trefn gyfeirnodi:**
Rhif yr achos | *enw'r achos* | [blwyddyn] | talfyriad yr adroddiad | tudalen gyntaf

[12] Case 240/83 Procureur de la République v ADBHU [1985] ECR 531.

### Achosion yr UE heb eu Hadrodd

Cyfeirnodwch yr hysbysiad o'r gyfres *Official Journal* (OJ) C (yn dilyn y drefn gyfeirnodi uchod ar gyfer achosion wedi eu hadrodd).

[15] Case C-556/07 *Commission v France* [2009] OJ C102/8.

Os nad yw'r achos wedi ei adrodd yn yr OJ eto, cyfeirnodwch y rhif achos ac enw'r achos, wedi eu dilyn gan y Llys a dyddiad y penderfyniad mewn cromfachau.

[48] Case T-227/08 *Bayer Healthcare v OHMI-Uriach Aquilea* OTC (CFI, 11 November 2009).

**Pinbwyntio:**
I binbwyntio, rhowch goma, 'para' neu 'paras' a rhif(au) y paragraff(au) mewn cromfachau sgwâr ar ôl cyfeirnod yr achos.

[44] Case C-176/03 *Commission v Council* [2005] ECR I-7879, paras [47-48].

### Barn Adfocadau Cyffredinol

Wrth gyfeirnodi barn Adfocad Cyffredinol, ychwanegwch opinion of AG [Name] ar ôl cyfeirnod yr achos a choma, a chyn unrhyw binbwynt.

[42] Case C-411/05 *Palacios de la Villa v Cortefiel Servicios SA* [2007] ECR I-8531, Opinion of AG Mazak, paras 79-100.

Dyma rai enghreifftiau o'r cyfeirnodau niwtral rydych yn fwyaf tebygol o'u gweld wrth astudio'r gyfraith: :

- Supreme Court – [2010] UKSC 2
- House of Lords – [2008] UKHL 8
- Court of Appeal (Civil Division) – [2001] EWCA Civ 5
- Court of Appeal (Criminal Division) – [2001] EWCA Crim 7
- High Court (Administrative Court) – [2005] EWHC Admin 12
- High Court (Chancery Division) – [2005] EWHC 15 (Ch)
- High Court (Queen's Bench Division) – [2005] EWHC 18 (QB)
- High Court (Family Division) – [2005] EWHC 24 (Fam)

### Penderfyniadau'r Comisiwn Ewropeaidd

Rhaid cyfeirnodi penderfyniadau'n ymwneud â chyfraith gystadlu a chydsoddiad fel achosion.

**Trefn gyfeirnodi:**
*Enw'r achos* | (rhif achos) | rhif Penderfyniad y Comisiwn | [blwyddyn] | rhifyn OJ L/tudalen gyntaf

[32] *Alcatel/Teletra* (Case IV/M.042) Commission Decision 91/241/EEC [1991] OJ L122/48.

[36] *Georg Verkehrsorgani v Ferrovie dello Stato* (Case COMP/37.685) Commission Decision 2004/33/EC [2004] OJ L11/17.

### Penderfyniadau Llys Iawnderau Dynol Ewrop

Cyfeirnodwch benderfyniadau Llys Iawnderau Dynol Ewrop (ECtHR) gyda chysondeb drwy gydol aseiniad o blith un o'r cyfresi canlynol:

- *European Court Reports* (ECR) neu
- *Reports of Judgments and Decisions* (ECHR) neu
- *European Human Rights Reports* (EHRR)

[27] *Osman v UK* ECHR 1998-VIII 3124.

### Adroddiadau Achosion Llys Iawnderau Dynol Ewrop heb eu Hadrodd

Cyfeirnodwch benderfyniadau heb eu hadrodd drwy ddefnyddio enw'r achos, rhif cais, wedyn y Llys a dyddiad y penderfyniad mewn cromfachau.

[23] *Balogh v Hungary* App no 47940/99 (ECtHR, 20 July 2004).

**Pinbwyntio:**
I binbwyntio, rhowch goma, 'para' neu 'paras' a rhif(au) y paragraff(au) mewn cromfachau sgwâr ar ôl cyfeirnod yr achos.

[25] *Omojudi v UK* (2010) 51 EHRR 10, [paras 4-1].

## C: Cyfeirnodi Deddfwriaeth Sylfaenol y DU

Sylwer: Mae'r canllaw OSCOLA llawn yn cynnwys enghreifftiau o gyfeirnodi biliau Seneddol a deddfwriaeth o Gymru, yr UE a deddfwrfeydd rhyngwladol.

### Cyfeirnodi Statudau (Deddfau Seneddol)

Cyfeirnodwch Ddeddf drwy nodi'r teitl byr a'r flwyddyn, hepgorwch y 'the' ar ddechrau teitl.

Os ydych yn defnyddio'r teitl byr a'r flwyddyn i gyfeirio at y Ddeddf yng nghorff eich gwaith, nid oes angen i chi greu troednodyn gan fod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y darllenydd am y ffynhonnell yn y testun yn barod. Fodd bynnag, os nad ydych yn cynnwys teitl llawn y Ddeddf neu'r adran berthnasol yn eich testun, cyfeirnodwch fel y dangosir isod.

[21] Gambling Act 2005.

**Enghraifft- o-fewn-testun gyda phinbwynt:**
The statutory definition of remote gambling is "any gambling in which persons participate by the use of remote communication."[1]

[1] Gambling Act 2005, s 4.

**Pinbwyntio:**
I gyfeirio at ran, adran, is-adran, paragraff, is-baragraff neu atodlen, neu fwy nag un o'r elfennau hyn, cyfeirnodwch fel a ganlyn:

| Term | Talfyriad |
|---|---|
| part/parts | pt/pts |
| section/sections | s/ss |
| subsection/subsections | sub-s/sub-ss |
| paragraph/paragraphs | para/paras |
| subparagraph/subparagraphs | subpara/subparas |
| schedule/schedules | sch/schs |

[9] Consumer Protection Act 1978, s 2.

[18] Human Rights Act 1998, sch 1 pt 1.

**Nodiadau Esboniadol Deddfau**
Wrth gyfeirnodi nodyn esboniadol, rhowch y geiriau canlynol o flaen enw'r Ddeddf, 'Explanatory Notes to the...'. Os yn pinbwyntio, cyfeirnodwch rif(au) y paragraff gyda 'para' neu 'para(s) o'i flaen.

[7] Explanatory Notes to the Charities Act 2006, para 15.

### Biliau

Cyfeirnodwch Fil fel a ganlyn:

**Trefn gyfeirnodi:**

teitl | Bil HC | (sesiwn) | [rhif] NEU teitl | Bil HL | (sesiwn) | rhif

[3] Consolidated Fund HC Bill (2008-09) [5].

I gyfeirnodi rhan o Fil, defnyddiwch 'cl' neu 'cls' ac wedyn rhif(au) y cymal(au).

[6] Academies HL Bill (2010-11) 1, cl 8(2).

## D: Cyfeirnodi Is-ddeddfwriaeth

### Offerynnau Statudol

Cyfeirnodwch Offeryn Statudol (SI) drwy nodi'r enw, y flwyddyn a'r rhif; hepgorwch y 'the' ar ddechrau teitl.

**Trefn gyfeirnodi:**

enw | blwyddyn | rhif SI

[12]Gambling Act 2005 (Amendment of Schedule 6) Order 2012/1633.

Os ydych yn defnyddio'r enw a'r dyddiad i gyfeirio at yr Si yng nghorff eich gwaith, nid oes angen i chi greu troednodyn gan fod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar y darllenydd am y ffynhonnell yn y testun yn barod.

**Pinbwyntio:**

Yn debyg i'r rheolau ar gyfer statudau, ac yn ychwanegol at y talfyriadau a roddir ar gyfer rhannau o statudau, defnyddiwch y canlynol ar gyfer rhannau o offerynnau statudol:

| Term | Talfyriad |
|---|---|
| regulation/regulations | reg/regs |
| rule/rules | r/rr |
| article/articles | art/arts |

[15] Eggs and Chicks (England) Regulations 2009, SI 2009/2163, reg 7(2).

## E: Cyfeirnodi Deddfwriaeth yr UE

Y ffynhonnell fwyaf awdurdodol ar gyfer deddfwriaeth yr UE yw'r *Official Journal of the European Communities* (OJ).

Cyfeirnodwch gyfamodau a phrotocolau'r UE fel a ganlyn:

**Trefn gyfeirnodi:**

Teitl deddfwriaeth | [blwyddyn] | cyfres OJ | rhifyn/tudalen gyntaf

[10] Consolidated Version of the Treaty on European Union [2008] OJ C115/13.

Cyfeirnodwch Reoliadau, Cyfarwyddebau, Argymhellion a Barnau fel a ganlyn:

**Trefn gyfeirnodi:**

Math o ddeddfwriaeth | rhif | teitl | [blwyddyn] | cyfres OJ | rhifyn/tudalen gyntaf

[12]Council Regulation (EC) 1984/2003 of 8 April 2003 introducing a system for the statistical monitoring of trade in bluefin tuna, swordfish and big eye tuna within the Community [2003] OJ L295/1.

**Pinbwyntio:**

I gyfeirnodi erthygl neu erthyglau yn neddfwriaeth yr UE, rhowch goma, wedyn 'art' neu 'arts' a'r rhif(au) erthygl(au) ar ôl y cyfeirnod OJ:

[15] Consolidated Version of the Treaty on European Union [2008] OJ C115/13, art 8.

I gyfeirnodi paragraff neu baragraffau yn neddfwriaeth yr UE dilynwch y drefn uchod ond defnyddiwch 'para' neu 'paras' yn lle.

## F:Cyhoeddiadau Swyddogol

Mae cyhoeddiad swyddogol yn golygu unrhyw ddogfen wedi ei chyhoeddi gan sefydliad y gellir ei ystyried yn gorff swyddogol, ac sydd wedyn ar gael i'r cyhoedd. Gall y rhain gynnwys Papurau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, papurau gorchymyn (yn cynnwys papurau Gwyn a Gwyrdd), Hansard (Cyffredin ac Arglwyddi), dadleuon pwyllgorau sefydlog, dethol a Biliau Cyhoeddus, ymatebion y llywodraeth i adroddiadau pwyllgorau dethol, adroddiadau Comisiwn y Gyfraith ac eraill. Os oes gan ffynhonnell ISBN, cyfeirnodwch hi fel llyfr. Heblaw am hynny, gellir cyfeirnodi cyhoeddiadau seneddol fel a ganlyn:

### Adroddiadau Comisiwn y Gyfraith

**Trefn Gyfeirnodi gyda phinbwynt:**

Comisiwn y Gyfraith | *Teitl* | (rhif adroddiad Comisiwn y Gyfraith, rhif papur Gorchymyn pan ar gael, Blwyddyn) [rhif paragraff]

[9] Law Commission, *Unfair Terms in Contracts* (Law Com No 292 Cm 6464, 2005).

### Papurau Gorchymyn

Mae'n bwysig nodi'r talfyriad a roddir ar gyfer 'Gorchymyn' ar y ddalen deitl, gan fod sawl cyfres o bapurau Gorchymyn wedi bod, pob un â thalfyriad o fath gwahanol.

**Trefn Gyfeirnodi gyda phinbwynt:**
Awdur | *Teitl* | (rhif papur Gorchymyn, Blwyddyn) | rhif tudalen number

[8] Department for Education and Employment, *Learning to Succeed: a New Framework for Post 16 Learning* Cm 4392, 1999).

### Dadleuon Seneddol (Hansard)

Cyfeirnodwch Hansard fel a ganlyn, gan ddefnyddio 'cols' ar gyfer mwy nag un golofn:

**Trefn Gyfeirnodi gyda phinbwynt:**

HC Deb NEU HL Deb | dyddiad, | rhif cyfrol | rhif colofn

[12] HC Deb 3 February 1977, vol 389, cols 973-76.

Hansard HC (Tŷ'r Cyffredin) neu Hansard HL (Tŷ'r Arglwyddi) | rhif cyfrol | rhif colofn | (Dyddiad)

[12] Hansard HC vol 508 col 1258 (8 April 2010).

## G: Llyfrau

Fel arfer, mae'r manylion cyhoeddi i'w gweld ar y dudalen deitl mewn copïau caled (y dudalen sydd â'r wybodaeth hawlfraint ar yr ochr arall iddi) neu ar dudalen cartref e-lyfr. Dylid nodi enw'r awdur yn yr un ffordd yn union ag y gwneir yn y cyhoeddiad, ond mae llythrennau blaen a chyfenw hefyd yn dderbyniol. Dylid rhoi teitl y llyfr mewn italig bob tro. Rhowch fanylion perthnasol am yr argraffiad cyn y cyhoeddwr a'r flwyddyn.

**Pinbwyntio:**
Os yn cyfeirio at wybodaeth o dudalen neu baragraff penodol, rhowch rif y dudalen neu baragraff yn syth ar ôl y flwyddyn. Defnyddiwch 'pt' ar gyfer part/rhan, 'ch' ar gyfer chapter/ pennod, a 'para' ar gyfer paragraph/paragraff. Mae rhifau tudalennau yn sefyll ar eu pennau eu hunain; nid oes angen i chi ddefnyddio 'p' na 'pp'.

### Llyfrau ag un awdur

**Trefn gyfeirnodi:**
awdur, | *teitl* | (argraffiad, | cyhoeddwr | blwyddyn)

**Enghraifft heb binbwynt:**
[1]J Knowles, *Effective Legal Research* (2nd edn, Sweet & Maxwell 2009).

**Enghraifft- o-fewn-testun gyda phinbwynt:**
Knowles suggests that the best place to start legal research is with the books in the law library.[1]

**Cyfeirnod cyntaf mewn troednodyn:**
[1] J Knowles, *Effective Legal Research* (2nd edn, Sweet & Maxwell 2009) para 1.3.

**Cyfeirnodau wedi hynny mewn troednodyn:**
Os byddwch yn cyfeirio at ffynhonnell fwy nag unwaith yn eich troednodiadau, rhowch y cyfeirnod llawn wrth ei chrybwyll am y tro cyntaf (fel uchod) ac wedi hynny nodwch y ffynhonnell yn gryno a'r troednodyn y mae'r manylion llawn ynddo.

[5] Knowles (n 1) para 4.6.

### Llyfr â dau neu dri o awduron

Os oes mwy nag un awdur, mewnosodwch 'and' cyn enw'r awdur olaf.

**Trefn gyfeirnodi:**
Awdur a/ac awdur, | *teitl* |(gwybodaeth ychwanegol, |argraffiad,| cyhoeddwr | blwyddyn)

Awdur, awdur a/ac awdur, | *teitl* |(gwybodaeth ychwanegol, |argraffiad,| cyhoeddwr | blwyddyn)

[1] S Bailey and N Taylor, *Bailey, Harris and Jones: Civil Liberties Cases, Materials, and Commentary* (6th rev edn, OUP 2009).

### Llyfr â mwy na thri awdur

Os oes mwy na thri awdur, rhowch enw'r awdur cyntaf ac wedyn 'and others'.

**Trefn gyfeirnodi:**
Awdur and others, | *teitl* |(gwybodaeth ychwanegol, |argraffiad,| cyhoeddwr | blwyddyn)

[1] S Gardiner and others, *Sports Law* (3rd edn, Cavendish 2006).

### Llyfr gyda golygydd(ion)

Os nad oes awdur, cyfeirnodwch y golygydd yn yr un ffordd ag awdur, gan ychwanegu mewn cromfachau ar ôl yr enw '(ed)' neu '(eds)' os oes mwy nag un.

[8] M Woodley (ed), *Osborn's Concise Law Dictionary* (11th edn, Sweet & Maxwell 2009).

### Cyfraniad at lyfr

Pan fo llyfr yn cynnwys penodau wedi eu hysgrifennu gan nifer o wahanol awduron, wedi eu casglu ynghyd gan olygydd, cyfeirnodwch awdur y bennod a theitl y bennod mewn dyfynodau sengl, wedyn rhowch enw'r golygydd, teitl y llyfr mewn italig a'r wybodaeth gyhoeddi. Yn y Llyfryddiaeth, cyfeirnodwch y llyfr fel cyfanwaith, gan hepgor manylion y bennod unigol.

**Trefn gyfeirnodi:**
Awdur y bennod, | 'teitl y bennod' | yn golygydd (gol/ed), | *teitl y llyfr* | (gwybodaeth ychwanegol, | cyhoeddwr | blwyddyn)

[5] T Weir 'Tort' in C Barnard, J O'Sullivan and G Virgo (eds), *What about Law? Studying Law at University* (2nd edn, Hart Publishing 2011).

### Gwyddoniaduron

Cyfeirnodwch wyddoniadur yn yr un ffordd â llyfr, ond hepgorwch yr awdur/golygydd a'r cyhoeddwr a rhowch rif yr argraffiad a'r flwyddyn gyhoeddi neu ailgyhoeddi. Daw pinbwyntiau at gyfrolau a pharagraffau ar ôl y wybodaeth gyhoeddi.

**Troednodyn gyda phinbwynt:**
[7] *Halsbury's Laws of England* (5th edn, 2010) vol 45, para 25.

## H: Erthyglau mewn Cyfnodolion (Print ac e-Gyfnodolion)

Rhowch y flwyddyn gyhoeddi mewn cromfachau crwm pan fo rhif cyfrol ar wahân; mae hyn yn wir am y rhan fwyaf o gyfnodolion. Dim ond tudalennau yn dechrau gyda thudalen 1 ar gyfer pob cyhoeddiad mewn cyfrol y dylech cynnwys rhif cyhoeddi. Os felly rhowch y rhif cyhoeddi mewn cromfachau yn syth ar ôl y rhif cyfrol. Os yn cyfeirnodi'r erthygl gyfan, rhowch rhif y dudalen gyntaf yn unig.

**Trefn gyfeirnodi:**

awdur, | 'teitl yr erthygl' | (blwyddyn) | cyfrol | enw neu dalfyriad y cyfnodolyn | tudalen gyntaf yr erthygl

[NEU]

awdur, | 'teitl' | [blwyddyn] | enw neu dalfyriad y cyfnodolyn | tudalen gyntaf yr erthygl

[18] D Whitehead, 'Messages on parenthood: the Human Fertilisation and Embryology Bill' (2008) 42 Law Teach 242.

**Troednodyn gyda phinbwynt:**
Os yn cyfeirnodi gwybodaeth o dudalen benodol, ychwanegwch goma ar ôl tudalen gyntaf yr erthygl ac wedyn y dudalen lle gellir gweld y wybodaeth.

[20] R Owen, 'The View at the Start of the Decade' (2010) 44 Law Teach 75, 82.

**Sylwer:**

Defnyddiwch dalfyriad safonol ar gyfer teitl y cyfnodolyn, gellir gweld y rhain yn y Cardiff Index to Legal Abbreviations http://www.legalabbrevs.cardiff.ac.uk/

### Cyfnodolion sydd Ar-lein yn Unig
Os mai dim ond ar-lein y mae'r cyfnodolyn yn cael ei gyhoeddi, heb fersiwn brint gyfatebol, neu os yw'r fersiwn rydych chi wedi ei darllen o'r erthygl ar-lein heb rifau tudalennau neu elfennau eraill, cyfeirnodwch fel yn yr enghraifft ganlynol.

**Trefn gyfeirnodi:**
awdur, | 'teitl' | blwyddyn | cyfrol| enw neu dalfyriad y cyfnodolyn |<cyfeiriad gwe> | dyddiad cyrchu

[7] H Power and B Dowrick, 'Issues in Corporate Crime: An Introduction' [1998] 2 Web J Current Legal Issues <http://webjcli.ncl.ac.uk/1998/issue2/power2.html> accessed 6 January 2012.

### Sylwadau ar Achosion neu Nodiadau Achos
Pan fo gan y rhain deitlau, ymdriniwch â nhw yn yr un ffodd ag erthyglau o gyfnodolion (gweler uchod), pan nad oes teitl, defnyddiwch enw'r achos mewn italig yn lle ac ychwanegwch 'note' ar ddiwedd y cyfeirnod. Os na roddir awdur, dechreuwch y cyfeirnod gyda theitl y sylwad achos os rhoddir un neu enw'r achos.

[9] Andrew Ashworth, 'R (singh) v Chief Constable of the WestMidlands Police' [2006] Crim LR 441 (note)

[10] 'Interim relief denied to musicians dropped from play: Ashworth and ors v Royal National Theatre' [2014] 1000 IDS Brief HR July (note)

## I: Gwefannau a Blogiau

I gyfeirnodi gwybodaeth o wefan lle mae'r wybodaeth mewn fformat nad yw OSCOLA yn ymdrin ag ef, gwnewch y canlynol:

### Gwefannau
**Trefn Gyfeirnodi:**
Awdur | 'Teitl Tudalen Gwe' (Gwefan, dyddiad cyhoeddi) <url> dyddiad cyrchu

[15] Liberty and the Civil Liberties Trust, (*A Year in Review*, 2011) <http://www.liberty-human-rights.org.uk/newsletter/libertyyearinreview2011/index.html> accessed 10 August 2012.

### Blogiau
**Trefn Gyfeirnodi:**
awdur | 'Teitl y postiad blog' (*teitl y blog*, dyddiad cyhoeddi os ar gael) <url> dyddiad cyrchu

[18] R English, 'Defining "dignity" – nailing jelly to the wall' (*UK Human Rights Blog*, 8 August 2012) <http://ukhumanrightsblog.com/> accessed 10 August 2012.

[23] K Broadhurst, 'Not another brick in the wall?' (9 Park Place Chambers, 4 June 2014) <http://www.9parkplace.co.uk/news-and-events//2014/06/04/not-another-brick-in-the-wall/> accessed 15 July 2014.

**Sylwer:** Mae angen holi cwestiynau am ansawdd tudalen gwe sydd heb awdur neu ddyddiad, h.y. ydy hi'n addas ar gyfer gwaith academaidd? Os nad oes enw awdur ond bod y dudalen yn briodol ei chyfeirnodi, dechreuwch gyda gair arwyddocaol cyntaf y teitl ac wedyn rhowch weddill y manylion yn ôl yr arfer.

**Hypergysylltiadau Byw**
I ddileu dolenni byw yn Word de-gliciwch y ddolen a dewiswch 'Dileu hypergysylltiad/Remove hyperlink'.

# Rhan 3 – Tablau Achos a Deddfwriaeth a Llyfryddiaeth

## ENGHRAIFFT 4

### Tabl Achosion

**UK Cases**

Boulton v Jones (1857) 2 H&N 564; 157 ER 232

Calvert v Gardiner [2002] EWHC 1394 (QB)

Edwards v Skyways [1964] 1 All ER 494

Giles v Thompson [1994] 1 AC 142 (HL)

Henly v Mayor of Lyme (1828) 5 Bing 91, 107; 130 ER 995, 1001

R (Roberts) v Parole Board [2004] EWCA Civ 1031, [2005] (QB)

Stubbs v Sayer (CA, 8 November 1990)

Tweddle v Atkinson [1961] 1 B & S 393; 121 ER 762 (QB)

### Tabl Achosion (enghraifft ar gyfer myfyrwyr blwyddyn olaf ac ôl-raddedig)

**UK Cases**

A v Bottrill [2002] UKPC 44, [2003] 1 AC 449....................................163

AB v South West Water Services Ltd [1993] 2 WLR 507 (CA) ......57, 301

Abacrombie & Co, Re [2008] EWHC 2520 (Ch) ...................................84

Abbar v Saudi Economic & Development Co (SEDCO) Real Estate Ltd

[2013] EWHC 1414 (Ch) ..........................................................................91

Addis v Gramophone Co Ltd [1909] AC 488 (HL) ................................ 99

### Table of Legislation

**Statutes**

Contract (Rights of Third Parties) Act 1999 Human Rights

Act 1998

Landlord and Tenant Act 1995

**Statutory Instruments**

Eggs and Chicks (England) Regulations 2009, SI 2009/2163

**EU Legislation**

Consolidated Version of the Treaty on European Union [2008] OJ C115

### Tabl Deddfwriaeth (enghraifft ar gyfer myfyrwyr blwyddyn olaf ac ôl-raddedig)

**Statutes**

Carriage by Air Act 1961 ..........................................................................93
s 1 ..........................................................................................................93
sch 1B, art 29 .......................................................................................93

Competition Act 1988 ..............................................................................110
s 36 ......................................................................................................110
Consumer Protection Act 1987 ..................................................................24

Consumer Rights Act 2015 ........................................................................29
s 47C(1) ...............................................................................................29

PUBLIC / CYHOEDDUS

## Sut i gyflwyno tablau achosion a statudau

*(Gweler Enghraifft 4 uchod)*

Dylai tablau sy'n rhestru cyfeirnodau llawn ar gyfer ffynonellau cyfraith gwreiddiol, fel arfer adroddiadau achosion cyfraith a deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth (Deddfau ac Offerynnau Statudol) yn eich aseiniad ymddangos ar ddechrau eich gwaith, ar dudalen ar wahân, cyn prif gorff y testun. Yn dibynnau ar y ffynonellau, gallai'r rhestr gael ei rhannu'n is-adrannau ar gyfer pob categori, fel y dangosir yn Enghraifft 4.

### Mynegeio (dim ond ei angen ar gyfer myfyrwyr blwyddyn olaf a myfyrwyr ôl-raddedig)

Rhaid mynegeio tablau achosion er mwyn i'r darllenydd ddod o hyd i'r tudalennau o'r gwaith lle y cyfeirir at yr achosion.

A v Bottrill [2002] UKPC 44, [2003] 1 AC 449....................................163

AB v South West Water Services Ltd [1993] 2 WLR 507 (CA) ......57, 301

Abacrombie & Co, Re [2008] EWHC 2520 (Ch) ...................................84

Abbar v Saudi Economic & Development Co (SEDCO) Real Estate Ltd

[2013] EWHC 1414 (Ch) ........................................................................91

Addis v Gramophone Co Ltd [1909] AC 488 (HL) ................................ 99

Rhaid mynegeio tablau deddfwriaeth, gydag adrannau penodol a'r tudalennau lle cyfeiriwyd at y ddeddfwriaeth:

Carriage by Air Act 1961 ..........................................................................93
s 1 .......................................................................................................93
sch 1B, art 29 ......................................................................................93

Competition Act 1988 ..............................................................................110
s 36 .....................................................................................................110
Consumer Protection Act 1987 .................................................................24

Consumer Rights Act 2015 ........................................................................29
s 47C(1) ...........................................................................................29

### Fformatio'r Tabl Achosion

Mae cyfeirnodau achosion yn cael eu rhoi yn y troednodiadau, ond sylwer nad yw enwau achosion yn cael eu hitaleiddio mewn tablau achosion a dylent ymddangos yn nhrefn yr wyddor o'r gair arwyddocaol cyntaf,

e.e. Byddai 3 Giles v Thompson [1994] 1 AC 142 (HL). mewn troednodyn yn troi'n Giles v Thompson [1994] 1 AC 142 (HL) yn y Tabl Achosio

**Sylwer: Ni ddefnyddir atalnodau llawn na phinbwyntiau mewn Tabl ar gyfer unrhyw ffynhonnell.**

Dyma rai enghreifftiau o ffurfiau amrywiol ar enwau achosion:

Re *Jones* yn troi'n Jones, Re

Re *W* (*Illegitimate Child: Change of Surname*) yn troi'n W (Illegitimate Child: Change of Surname)

*R v Smith* yn troi'n Smith (mewn traethawd cyfraith droseddol, ond mewn traethawd ar faes arall, rhestrwch dan 'R', gwnewch hyn hefyd ar gyfer achosion adolygiadau barnwrol fel y parti enwir gyntaf.)

The *Starsin* yn troi'n Starsin, The. See Homburg Houtimount BV v Agrosin Provate Ltd. Dylid rhestru achosion nod masnachu a llongau dan enw'r achos, ond rhowch gofnod ychwanegol yn y tabl dan nod masnachu neu enw'r llong, gan ddefnyddio'r gair allweddol cyntaf gyda chroesgyfeiriad at yr enw llawn.

Case T-344/99 *Arne Mathisen AS* v Council [2002] ECR II-2905 yn troi'n Arne Mathisen AS v Council (T-344/99) [2002] ECR II-2095 (Os nad ydynt yn cael eu rhestru ar wahân, dylai achosion yr UE gael eu trefnu yn nhrefn yr wyddor fesul enw'r parti cyntaf yn y tabl achosion, gyda'r rhif achos yn dilyn enw'r achos mewn cromfachau.)

**Fformatio'r Tabl Statudau**

Dylid rhestru deddfwriaeth yn nhrefn yr wyddor o air arwyddocaol cyntaf y teitl, nid yn gronolegol ond yn ôl y dyddiad yr ymddeddfiad.

Consumer Protection Act 1978

Gambling Act 2005

Human Rights Act 1998

## Sut i gyflwyno llyfryddiaeth o ffynonellau eilaidd

*(Gweler Enghraifft 5 ar dudalen 15)*

Mae llyfryddiaeth yn cynnwys manylion pob ffynhonnell eilaidd y cyfeirir ati ym mhrif gorff y testun, yn ogystal â'r rhai sydd wedi llywio dealltwriaeth a dadansoddi'r pwnc ond nad ydynt wedi eu cyfeirio'n uniongyrchol atynt (h.y. darllen cefndirol). Dylai'r llyfryddiaeth fod ar ddiwedd prif gorff y testun ac ar ôl unrhyw atodiadau. Yn dibynnau ar y ffynonellau sydd wedi eu cynnwys, gallai'r rhestr gael ei rhannu'n is-adrannau ar gyfer pob categori fel y dangosir yn Enghraifft 5:

**Fformatio**

Mae angen gwneud rhai mân newidiadau i'r ffordd mae ffynonellau yn cael eu fformatio mewn llyfryddiaeth.

**Sylwer: Ni ddefnyddir atalnodau llawn na phinbwyntiau ar gyfer unrhyw ffynhonnell.**

### Ffynonellau Eilaidd: llyfrau ac erthyglau o gyfnodolion

Mae tair rheol ar gyfer fformation llyfrau ac erthyglau o gyfnodolion mewn llyfryddiaeth:

1. Rhowch y cyfenw yn gyntaf.
2. Rhowch goma ar ôl y llythyren flaen gyntaf a chyn y teitl.
3. Hepgorwch binbwyntiau ond cadwch y rhif tudalen gychwynnol ar gyfer erthyglau o gyfnodolion.

**Llyfrau**

Mewn troednodyn:

[12] J Smith, *The Law of Contract* (4th edn, Sweet & Maxwell 2002) 117.

Mewn llyfryddiaeth:

Smith J, *The Law of Contract* (4th edn, Sweet & Maxwell 2002)

Mewn llyfryddiaeth, efallai y bydd angen i chi rhestru sawl llyfr gan yr un awdur. Dylid rhestru'r rhain yn gronolegol (gan ddechrau gyda'r hynaf.) Nid oes angen rhoi enw'r awdur fwy nag unwaith. Gellir rhoi em-dash dwbl yn lle, fel a ganlyn:

Hart HLA, *Law, Liberty and Morality* (OUP 1963)
— —*Punishment and Responsibility* (OUP 1968)

Trefnwch weithiau yn nhrefn yr wyddor fesul cyfenw awdur,gydag unrhyw weithiau heb awdur wedi eu rhestru ar y dechrauyn nhrefn yr wyddor fesul gair arwyddocaol cyntaf y teitl.

**Erthyglau o gyfnodolion**

Mewn troednodyn gyda phinbwynt:

[20] R Owen, 'The View at the Start of the Decade' (2010) 44 Law Teach 75, 82.

Mewn llyfryddiaeth lle nad oes angen pinbwynt:

Owen R, 'The View at the Start of the Decade' (2010) 44 Law Teach 75

Dylai teitlau cyfnodolion ymddangos yn eu ffurf lawn yn y llyfryddiaeth. Gellir defnyddio'r *Cardiff Index to Legal Abbreviations* http://www.legalabbrevs.cardiff.ac.uk/ i wirio teitl llawn unrhyw gyfnodolyn o'i dalfyriad

# ENGHRAIFFT 5

**Bibliography**

**Books**

Bailey S and Taylor N, *Bailey Harris and Jones: Civil Liberties Cases, Materials and Commentary* (6th rev edn, OUP 2009)

Gardiner S and others, *Sports Law* (3rd edn, Cavendish 2006)

Janis M W, Kay R S and Bradley A W, (3rd edn, Oxford University Press 2008)

Knowles J, *Effective Legal Research* (2nd edn, Sweet & Maxwell 2009)

Smith J, *The Law of Contract* (4th edn, Sweet & Maxwell 2002)

Treitel GH, *The Law of Contract* (11th edn, Sweet & Maxwell 2003)

**Journal Articles**

Whitehead D, 'Messages on parenthood: the Human Fertilisation and Embryology Bill' (2008) 42 Law Teach 242

**Websites**

English R, 'Defining "dignity" – nailing jelly to the wall' (*UK Human Rights Blog*, 8 August 2012) <http://ukhumanrightsblog.com/> accessed 10 August 2012

**Diwedd y Canllaw**